# Effeithiau llifogydd

| | |
|---|---|
| **Yr amser a awgrymir ar gyfer y gweithgaredd** | **30 munud** |
| **Lleoliad** | **Dan do neu yn yr awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhannu syniadau i gefnogi dysgwyr i nodi effeithiau uniongyrchol a hirdymor llifogydd.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr aer, y tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a'r pridd i wella llesiant Cymru a rhoi dyfodol gwell i bawb.

## Cwricwlwm i Gymru

| Y Dyniaethau | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Iechyd a Lles |
|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill. |

## Amcanion

**Bydd dysgwyr yn gallu:**

- Ystyried eu hymatebion emosiynol eu hunain ac ymatebion pobl eraill i effeithiau llifogydd.
- Cydweithio i egluro effeithiau uniongyrchol a hirdymor posibl llifogydd ar bobl, eiddo a chymunedau.

## Offer ac adnoddau a awgrymir

- Cardiau adnoddau – Effeithiau llifogydd

## Gwybodaeth gefndirol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau eraill yn gweithio gyda phobl a chymunedau sy'n wynebu perygl llifogydd, gan helpu i atal llifogydd a pharatoi ar eu cyfer a chynnig cymorth i'r rhai yr effeithir arnynt.

Os hoffech chi neu'ch dysgwyr wybod mwy am berygl llifogydd i chi a beth i'w wneud os bydd llifogydd, ewch i'n tudalennau gwe.

---

## Awgrymiadau i gwblhau'r gweithgaredd hwn

- Gallech chi ddechrau'r gweithgaredd hwn drwy ofyn i'ch dysgwyr sut maen nhw'n meddwl y bydden nhw'n teimlo pe bai llifogydd yn eu cartref. A oes unrhyw un yn y grŵp erioed wedi profi effeithiau llifogydd?
- Gallai eich dysgwyr drafod sut y gall llifddwr effeithio ar eu bywydau o ddydd i ddydd. Er enghraifft, gallai effeithiau llifogydd olygu:
  - Na fyddent yn gallu defnyddio cae chwaraeon lleol neu chwarae yn eu hoff barc.
  - Byddai'n rhaid iddynt addasu i allu defnyddio'r rhan o'u cartref sydd i fyny'r grisiau yn unig.
  - Na allent fyw gartref am ychydig. Os caiff cartref ei ddifrodi'n ddrwg gan lifogydd, gall gymryd hyd at flwyddyn neu fwy iddo gael ei adfer a dod yn gyfanheddol eto. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i ddadlygru, sychu ac atgyweirio eiddo yn ddiogel ar ôl iddo ddioddef llifogydd. Ar gyfartaledd, nid yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n gorfod gadael eu cartrefi oherwydd llifogydd yn gallu byw yn eu heiddo am tua chwech i naw mis.
  - Na fyddent yn gallu cael anifeiliaid anwes yn byw gyda nhw.
  - Efallai y bydd angen iddynt ddysgu mewn ysgol wahanol neu fynychu lleoliad gwahanol dros dro os yw eu hysgol wedi dioddef llifogydd.
- A all eich dysgwyr drafod pa effeithiau y byddent yn disgwyl i lifddwr eu cael ar eu cartrefi a'u heiddo? A allai llifddwr beryglu adeiladwaith yr adeilad? A allai fod difrod allanol i'w cartref? Gallai eich dysgwyr feddwl yn systematig am bob ystafell yn eu cartref i weld effeithiau posibl llifogydd.
  - A allant ystyried beth yn eu barn nhw fyddai effaith llifddwr ar eitemau trydanol eu cartref fel oergelloedd, dyfeisiau clyfar neu setiau teledu?
  - Beth fyddai'n digwydd i'r gwahanol fathau o loriau yn y tŷ fel carpedi, teils neu loriau laminedig?
  - Beth am y dodrefn, y deunyddiau dodrefnu meddal a'r addurniadau cyffredinol?
  - A allant feddwl am unrhyw beth yn eu cartref na fyddai'n cael ei effeithio?
- A yw eich dysgwyr yn gallu trafod effeithiau llifogydd ar bobl a chymunedau lleol? Pa effeithiau fyddai llifogydd yn eu cael ar yr amgylchedd naturiol? Neu ar seilwaith lleol? Pa effaith uniongyrchol (y dyddiau cyntaf) neu hirdymor (wythnosau/misoedd/blynyddoedd) y gallai llifogydd ei chael? Gallai ein Cardiau adnoddau – Effeithiau llifogydd gael eu defnyddio i gynorthwyo trafodaeth neu gallai eich dysgwyr greu rhai eu hunain. Gallech ofyn i bob grŵp roi adborth i'r grŵp ehangach a thrafod a chymharu eu barn a'u syniadau. A yw eich dysgwyr yn ystyried bod rhai effeithiau yn waeth nag eraill?
- Gallech annog eich dysgwyr i fod yn gorfforol egnïol drwy eu herio i redeg, nôl a didoli'r cardiau. Os yw'r cardiau adnoddau wedi'u gosod ar ddarn gwastad, agored o dir, a all un tîm redeg, nodi a nôl yr holl gardiau sy'n amlygu effeithiau llifogydd ar seilwaith? A all tîm arall wneud hyn gyda'r holl gardiau sy'n amlygu effeithiau llifogydd ar yr amgylchedd naturiol? Fel arall, gallech roi cardiau effaith uniongyrchol i hanner eich grŵp a chardiau effaith hirdymor i'r hanner arall a'u herio i nodi a gwneud y cysylltiadau rhwng yr effeithiau yn unol â hynny.

## Awgrymiadau ar gyfer cwestiynau allweddol

- Dychmygwch eich bod newydd ddychwelyd i'ch cartref ar ôl llifogydd. Pa fath o ddifrod ydych chi'n meddwl allai fod?
- Sut byddai hyn yn gwneud i chi deimlo?
- Pa effeithiau uniongyrchol a hirdymor y mae llifogydd yn eu cael ar bobl yn eich barn chi? Ar gymunedau? Ar yr amgylchedd? Ar systemau trafnidiaeth?

## Awgrymiadau ar gyfer addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

- Cwblhewch y gweithgaredd fel grŵp cyfan.
- Edrychwch ar rai o effeithiau uniongyrchol llifogydd gyda'ch dysgwyr a thrafodwch rai o'r problemau y gallent eu hachosi.
- A all eich dysgwyr nodi effeithiau eraill nad ydynt wedi'u rhestru a chreu eu cardiau adnoddau eu hunain?
- Yn lle dosbarthu'r cardiau adnoddau, dosbarthwch gardiau gwag a gofynnwch i'r disgyblion wneud rhestr yn seiliedig ar yr hyn maen nhw'n meddwl yw effeithiau uniongyrchol a hirdymor llifogydd.

## Awgrymiadau ar gyfer gweithgaredd dilynol/estyniad

Rhowch gynnig ar ein gweithgareddau eraill:

- Cynllun gweithgaredd – Peryglon llifddwr
- Cynllun gweithgaredd – Sut i baratoi ar gyfer llifogydd
- Cynllun gweithgaredd – Ysgrifennu cynllun llifogydd
- Cynllun gweithgaredd – Ymchwilio i effeithiau emosiynol a seicolegol llifogydd

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i: **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**0300 065 3000**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government